# Yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2020/21

Daw hyn yn dilyn cyhoeddi ein hadroddiadau yng Nghymru a Gogledd Iwerddon ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2021. Oherwydd mater y tu hwnt i reolaeth yr ASB, roedd angen sicrwydd trydydd parti gan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol cyn y gellid cwblhau'r cyfrifon Cyfunol a San Steffan.

Yn ei rhagair i'r adroddiad, ysgrifennodd Ruth Hussey, Cadeirydd Dros Dro yr ASB yn ystod y cyfnod adrodd:

> 'Mae hi wedi bod y flwyddyn fwyaf heriol i'r ASB ac rwy'n falch bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn dangos, er gwaethaf pwysau COVID-19 a pharatoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio ar gyfer ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE), bod y cynnydd rhagorol yn erbyn ei blaenoriaethau strategol wedi parhau.'

Esbonia'r Prif Weithredwr Emily Miles yn ei rhagair fod yr ASB wedi addasu'n dda i'r heriau lu yn ystod y flwyddyn adrodd a'r ffaith ei bod hi'n falch o'r gwaith y mae'r ASB wedi'i wneud i reoli effaith y pandemig wrth ddatblygu cynlluniau diwygio. Mae hi hefyd yn esbonio sut rydym ni wedi gwneud cynnydd ar ein blaenoriaeth o wneud y Deyrnas Unedig (DU) yn lle gwell i fod yn ddefnyddiwr sydd â gorsensitifrwydd i fwyd:

> '[Yn ystod y flwyddyn adrodd], fe gynhaliom ni symposiwm gorsensitifrwydd i fwyd gydag amrywiaeth o siaradwyr a gweithdai, cyhoeddi ymchwil a ganfu fod y modd y mae busnesau bwyd yn trin alergenau wedi gwella'n sylweddol ers i reoliadau newydd ddod i rym yn 2014, a lansio ymgyrch ymwybyddiaeth lwyddiannus yn targedu oedolion ifanc sy'n tueddu i fod mewn mwy o berygl o brofi adweithiau alergaidd i fwyd.'

Ers hynny, rydym ni wedi helpu busnesau i baratoi at y ddeddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i fusnesau bwyd labelu alergenau ar fwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol, a ddaeth i rym ym mis Hydref 2021.

Darllenwch yr adroddiad llawn i ddarganfod rhagor am ein gweithgareddau a'n perfformiad yn ystod 2020/21, yn ogystal â'n pwrpas, ein prif swyddogaethau a'n gweledigaeth.

## Ein blwyddyn mewn rhifau

**Roedd gweithgarwch a pherfformiad ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn cynnwys y canlynol:**

- Cyflenwyd £1.4 miliwn o arian fel grantiau i awdurdodau lleol i gefnogi eu parodrwydd at ddiwedd cyfnod pontio'r UE
- Cofrestrodd bron i 55,000 o fusnesau newydd gyda'n gwasanaeth digidol Cofrestru Busnesau Bwyd newydd

- Cofrestrodd mwy na 58,000 o gyfrifon ar blatfform e-hyfforddiant alergeddau ac anoddefiadau bwyd

**Gwyddoniaeth:**

- Cyfanswm ein gwariant gwyddoniaeth ac ymchwil: £12.8 miliwn
- Cymerwyd 7,510 o samplau fel rhan o weithgareddau samplu'r ASB
- Dangosodd ein harolwg tracio agweddau’r cyhoedd fod 75% o bobl sy’n ymwybodol o'r ASB yn ymddiried yn yr ASB i sicrhau bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â’r hyn sydd ar y label

**Gweithrediadau a chyflenwi:**

- Fe’n hysbyswyd i 2,157 o ddigwyddiadau ac fe ymchwiliwyd iddynt
- Roedd 98.5% o weithredwyr busnesau bwyd cig wedi’u sgorio’n 'foddhaol' neu'n uwch o ran cydymffurfio
- Cafodd mwy na 99% o'r holl anifeiliaid a broseswyd mewn lladd-dai eu prosesu’n unol â deddfwriaeth lles anifeiliaid
- Cofnodwyd a dosbarthwyd mwy na 2,500 o adroddiadau gwybodaeth yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd yn ystod 2020/21
- Llwyddodd rhagor o fusnesau sy'n cyflenwi bwyd yn uniongyrchol i ddefnyddwyr i gael sgôr hylendid bwyd o 5 ('Da iawn'): 73.6%

**Bod y sefydliad gorau gallwn fod:**

- Rydym ni’n adran o’r Gwasanaeth Sifil sy’n 'Perfformio'n Uchel': Mae ein sgôr mynegai ymgysylltu â gweithwyr yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil wedi codi 3 phwynt i 70%